Cefnogir gan Lywodraeth Cymru
Supported by Welsh Government

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

# Y Cytundeb

Ar gyfer sefydliadau sy'n ymwneud ag amddiffyn, diogelwch, iechyd, addysg a llesiant cymdeithasol pobl yng Nghymru

(gan gynnwys sefydliadau statudol, preifat a thrydydd sector)

Fersiwn 5.1

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| **Rhageiriau** | | **2** |
| **1** | **Cyflwyniad a Diben** | **4** |
| 1.1 | Cyflwyniad | 4 |
| 1.2 | Dogfennaeth y Fframwaith | 5 |
| 1.3 | Mabwysiadu'r Cytundeb | 5 |
| **2** | **Ymrwymiadau Sefydliadol** | **6** |
| 2.1 | Cyflwyniad | 6 |
| 2.2 | Hawliau Gwrthrychau Data | 6 |
| 2.3 | Cyfreithlondeb | 6 |
| 2.4 | Staff ac Eraill sydd â Mynediad i Wybodaeth | 7 |
| 2.5 | Rheoli Cofnodion | 7 |
| 2.6 | Diogelwch Gwybodaeth a Rheoli Risg | 7 |
| 2.7 | Cwynion a Phryderon | 8 |
| **Atodiad 1 – Rhestr Termau** | | **9** |

# Rhageiriau



Mae rhannu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau cyhoeddus effeithiol ac effeithlon yn elfen hanfodol o bolisi Llywodraeth Cymru. Rydym yn ymwybodol iawn hefyd bod angen i sefydliadau trydydd sector a masnachol rannu gwybodaeth bersonol i alluogi darparu gwasanaethau'n effeithiol.

Mae grymuso staff i rannu gwybodaeth briodol gyda'r person cywir ar yr adeg gywir yn egwyddor allweddol o ran darparu gwasanaethau effeithiol; rhaid i ni sicrhau y gall y staff hyn ganolbwyntio ar ddarparu gofal a chymorth gyda'r hyder y gallant wneud hynny'n gywir, yn gyfreithlon a gyda chefnogaeth eu cyflogwyr. Yn yr un modd, rhaid i'r cyhoedd fod yn hyderus bod staff yn rhannu'n briodol, ac mae angen i sefydliadau fod yn sicr y rhoddir sylw i ystyriaethau cyfreithiol perthnasol, a bod risgiau'n cael eu nodi a'u lliniaru.

Mae datblygiad pellach Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) wedi'i yrru gan yr amgylchedd deddfwriaethol sy'n newid a gan adborth gan y sawl sy'n defnyddio'r fframwaith. Mae'n parhau i ddarparu ymagwedd o arfer da sefydledig, cydnabyddedig a chadarn tuag at rannu gwybodaeth y gall staff, dinasyddion a phob partner gwasanaeth fod â hyder ynddi.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi bod yn rhan annatod o adolygu a diweddaru'r fframwaith WASPI, gan weithio ochr yn ochr â'r gwahanol bartneriaid i ddarparu fframwaith gwell a hyblyg sy'n bodloni anghenion y ddeddfwriaeth newydd a'r sawl sy'n ei defnyddio. Byddwn yn annog pob sefydliad sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau i bobl i ymrwymo i'w ddefnyddio, i wneud y mwyaf o'r adnoddau a ddarperir, ac i ymgysylltu â'u cymuned ymarfer. Mae'r fframwaith WASPI yn ffordd hanfodol o alluogi staff a sefydliadau i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl, trwy rannu gwybodaeth yn effeithiol ac yn gyfreithlon ac rwy'n falch i'w gymeradwyo.

**Julie James**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Awst 2018

Rwy’n falch iawn i gynnig cefnogaeth barhaus y Comisiynydd Gwybodaeth i raglen ac adnoddau WASPI. Mabwysiadodd Cymru ymagwedd gadarnhaol a rhagweithiol nifer o flynyddoedd yn ôl wrth ddatblygu WASPI, ac rwy’n falch bod fy swyddfa wedi gallu cyfrannu at ddiweddaru’r adnoddau i adlewyrchu gofynion newydd y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Deddf Diogelu Data 2018.

Mae rhannu data personol yn briodol, yn gyfreithlon ac yn ddiogel yn elfen hanfodol o wasanaethau cyhoeddus effeithiol. Ac eto, rwy’n gwybod o siarad a chyfarfod â sefydliadau eu bod yn wynebu llawer o rwystrau diwylliannol o fewn a thu allan i’w sefydliadau o ran rhannu data’n ddiogel a chymesur. Mae canllawiau ac ymrwymiadau clir yn cynorthwyo gydag ymdrin â rhai o’r rhwystrau diwylliannol hyn yn uniongyrchol.

Un o’m nodau allweddol fel Comisiynydd Gwybodaeth yw cynyddu ymddiriedaeth y cyhoedd a hyder sefydliadol wrth rannu data. Mae WASPI yn helpu i sicrhau bod sefydliadau yng Nghymru yn cynllunio’n ofalus ynghylch rhannu data, a’u bod yn darparu’r atebolrwydd a’r tryloywder angenrheidiol i’w defnyddwyr gwasanaeth a fydd yn helpu i adeiladu’r ymddiriedaeth a’r hyder hwnnw.

Mae’r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018 yn ymateb i bryderon cynyddol dinasyddion ynghylch hawliau gwybodaeth a rheoli eu data personol. Mae’r cyfreithiau newydd yn gofyn am ragor o atebolrwydd a thryloywder wrth drin data, a rhaid i reolwyr data o bob maint sicrhau bod ganddynt bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar waith. Bydd WASPI yn helpu sefydliadau gyda’r cyfrifoldebau hynny yng nghyd-destun rhannu data. Yn ogystal, mae gwefan fy swyddfa yn ffynhonnell dda ar gyfer cyngor a chanllawiau: www.ico.org.uk.

Edrychaf ymlaen at glywed am ddatblygiad parhaus WASPI

**Elizabeth Denham**
Comisiynydd Gwybodaeth
Awst 2018

# Cyflwyniad a Diben



## 1.1 Cyflwyniad

1.1.1 Cefnogir Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) gan Lywodraeth Cymru fel y fframwaith ‘sengl’ ar gyfer rhannu gwybodaeth yng Nghymru.

1.1.2 Diben y fframwaith yw galluogi sefydliadau sy’n darparu gwasanaethau i rannu gwybodaeth bersonol berthnasol mewn ffordd gyfreithlon a diogel, gan gefnogi rheoli risg. Yn benodol, mae’n ymwneud â’r sefydliadau hynny sy’n dal gwybodaeth am unigolion ac a allai ystyried ei bod yn briodol neu’n angenrheidiol iddynt rannu’r wybodaeth honno ag eraill.

1.1.3 Mae’r fframwaith hwn yn berthnasol i bob sefydliad sector cyhoeddus, pob sefydliad trydydd sector a phob sefydliad preifat a gontractir i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus.

1.1.4 Bydd mabwysiadu’r fframwaith ledled Cymru yn helpu i sicrhau cydymffurfiad â chyfraith gwlad a gofynion statudol. Mae hefyd yn helpu sefydliadau i fodloni ystyriaethau a osodir allan yng Nghod Ymarfer ar gyfer Rhannu Gwybodaeth statudol y Comisiynydd Gwybodaeth a gofynion cyfreithiol o ran atebolrwydd.

1.1.5 Mae’r Cytundeb yn berthnasol i wybodaeth bersonol adnabyddadwy, sy’n gallu cynnwys data dan ffugenw.

1.1.6 Mae’r Cytundeb yn nodi’r ymrwymiadau sy’n ofynnol gan bob sefydliad i alluogi rhannu gwybodaeth bersonol. Ceir cofrestru a pherchenogaeth ar y lefel uchaf.

1.1.7 Mae gweithredu’r Cytundeb yn ychwanegu gwerth sylweddol at ddarpariaeth gwasanaethau effeithiol ac effeithlon sy’n bodloni anghenion y rhai sy’n eu derbyn.

1.1.8 Mae’r Cytundeb yn ddatganiad o’r egwyddorion a’r sicrwydd sy’n llywodraethu gweithgarwch rhannu gwybodaeth. Mae’n sicrhau y diogelir hawliau pawb sy’n ymwneud â’r broses.

1.1.9 Mae’r amodau, y rhwymedigaethau a’r gofynion a osodir allan yn y Cytundeb hwn a’r dogfennau ategol yn berthnasol i’r holl staff sy’n trin a rhannu data personol. Mae hyn yn cynnwys gweithwyr uniongyrchol, gweithwyr asiantaeth, pobl â chontractau anrhydeddus ac eraill sy’n gweithio ar ran y sefydliadau partner, gan gynnwys asiantau ac is-gontractwyr.

1.1.10 Adolygir y Cytundeb hwn gan Fwrdd Rheoli WASPI ddwywaith y flwyddyn, neu fel y bydd newidiadau yn y ddeddfwriaeth yn pennu.

## 1.2 Dogfennaeth y fframwaith

1.2.1 Cefnogir y Cytundeb gan gytundebau templed â ffocws ar y dibenion a'r sail gyfreithiol ar gyfer rhannu gwybodaeth bersonol rhwng sefydliadau. Bwriedir i'r cytundebau gorffenedig gael eu defnyddio'n weithredol a byddant yn dogfennu 'beth, pryd, pam, sut a phwy' ar gyfer arferion rhannu gwybodaeth at ddibenion penodol, cyfreithlon.

1.2.2 Datblygwyd ystod o ddogfennau ategol i gynorthwyo sefydliadau i weithredu'r fframwaith ac mae'r rhain ar gael ar wefan WASPI – www.waspi.org.

## 1.3 Mabwysiadu'r Cytundeb

1.3.1 Cyfrifoldeb Prif Weithredwr neu Brif Swyddog corff statudol, sefydliad preifat neu sefydliad trydydd sector yw mabwysiadu'r Cytundeb hwn yn ffurfiol.

1.3.2 Cytuna pob sefydliad sy'n llofnodi'r datganiad hwn i gefnogi'r gwaith o fabwysiadu, dosbarthu, gweithredu, monitro ac adolygu'r Cytundeb a'i ofynion yn unol â'i safonau a/neu bolisïau a gweithdrefnau mewnol ei hun ar gyfer llywodraethu gwybodaeth ac unrhyw safonau a/neu bolisïau a gweithdrefnau eraill ar gyfer llywodraethu gwybodaeth a gytunir ac a awdurdodir ar y cyd.

1.3.3 Bydd pob sefydliad yn nodi "Person Dynodedig" i gymryd cyfrifoldeb dros sicrhau bod gofynion paragraff 1.3.2 uchod yn cael eu bodloni. Y person hwn ddylai fod yn Swyddog Diogelu Data pob sefydliad neu, lle nad yw'r rôl hon yn ofynnol, unigolyn sydd â lefel gyfatebol o ran statws.

1.3.4 Rhaid i'r Person Dynodedig fod yn fodlon y bydd ei sefydliad yn gweithio tuag at yr egwyddorion a'r sicrwydd a nodir yn y Cytundeb hwn.

1.3.5 Dylai'r 'Datganiad Derbyn a Chyfranogi' gael ei lenwi a'i lofnodi gan Brif Weithredwr, Prif Swyddog, neu berson cyfatebol i gadarnhau mabwysiadu'r Cytundeb. Mae copi o'r datganiad ar gael ar wefan WASPI.

# Ymrwymiadau Sefydliadol

## 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae’r adran hon yn amlinellu’r prif ymrwymiadau sy’n berthnasol i bob sefydliad sy’n llofnodi’r datganiad ac yn mabwysiadu’r Cytundeb hwn. O’u gweithredu’n llawn, dylai’r rhain sicrhau bod dull y sefydliad o drin gwybodaeth gwrthrychau data’n cydymffurfio â deddfwriaeth berthnasol ac arfer da. Mae pob partner yn gyfrifol am gydymffurfio â darpariaethau ‘Atebolrwydd’ y cyfreithiau diogelu data.

## 2.2 Hawliau Gwrthrychau Data

2.2.1 Bydd pob sefydliad yn caniatáu i wrthrychau data ymarfer eu hawliau yn deg ac yn gyson, ac yn unol ag unrhyw ofynion, rheoliadau neu ganllawiau deddfwriaethol penodol.

2.2.2 Rhaid i bob sefydliad fod â pholisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle i hwyluso diogelu ac ymarfer yr hawliau hyn a hawliau eraill.

2.2.3 Rhaid i bob sefydliad fod yn glir, yn agored ac yn dryloyw â gwrthrychau data ynghylch casglu a defnyddio eu gwybodaeth bersonol, gan roi sylw arbennig i’r ‘hawl i gael eu hysbysu’.

2.2.4 Mae gan bob gwrthrych data'r hawl i ddisgwyl y bydd gwybodaeth amdanynt yn cael ei diogelu, ei rheoli a’i phrosesu gyda’r lefel briodol o breifatrwydd a chyfrinachedd.

2.2.5 Wrth rannu data am blant, ni fydd pob sefydliad yn rhannu gwybodaeth am blant oni bai y dangoswyd bod rheswm cadarn dros wneud hynny, gan ystyried y ddeddfwriaeth, y canllawiau a budd gorau'r plentyn.

## 2.3 Cyfreithlondeb

2.3.1 Cyn rhannu data personol, rhaid i bob sefydliad sicrhau bod ganddo **bŵer cyfreithiol cyffredinol** i wneud hynny. Dylai sefydliadau'r sector cyhoeddus ystyried ffynonellau eu swyddogaethau a'u pwerau cyfreithiol. Er enghraifft, deddfwriaeth neu gyfreithiau eraill sy'n nodi eu swyddogaethau, ac sy'n creu rhwymedigaeth i rannu data personol, neu'n darparu pwerau statudol penodol neu ymhlyg i'w rhannu. Mae Rhan 5 o Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 yn darparu pyrth i gyrff cyhoeddus rannu data personol at ddibenion penodol. Dylai cyrff cyhoeddus yng Nghymru ystyried a yw'r pwerau hyn yn berthnasol, gan ystyried codau a chanllawiau perthnasol. Dylai sefydliadau’r sector preifat a’r sector cymdeithasol ystyried dogfennau cyfansoddiadol, cytundebau cyfreithiol neu ofynion rheoliadol eraill a allai gyfyngu neu atal rhannu data personol. Cyn

rhannu data personol, rhaid i bob sefydliad sicrhau ei fod yn cyflawni unrhyw ddyletswyddau cyfraith gyffredin, er enghraifft, dyletswydd cyfrinachedd cyfraith gyffredin.

2.3.1 Mae templedi safonol WASPI yn ei gwneud yn ofynnol i bartneriaid sy'n rhannu data ddogfennu sail gyfreithlon benodol ar gyfer rhannu data personol. Dyma ddarpariaethau penodol deddfwriaeth diogelu data, megis GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018, sy'n egluro'r amodau ar gyfer ystyried bod prosesu data personol yn gyfreithlon. Gall gwahanol seiliau cyfreithlon fod yn berthnasol i wahanol bartneriaid sy'n rhannu data.

## 2.4 Staff ac Eraill sydd â Mynediad i Wybodaeth

2.4.1 Rhaid bod gan bob sefydliad ei bolisïau a'i weithdrefnau gweithredol ei hun i hwyluso'r gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol yn effeithiol ac i gefnogi ei staff i rannu gwybodaeth yn briodol, yn ddiogel ac yn gyfreithlon.

2.4.2 Rhaid i gontractau staff gynnwys cymalau cyfrinachedd priodol sy'n rhoi manylion y canlyniadau posibl a ddaw o ddatgelu gwybodaeth bersonol heb awdurdod neu'n amhriodol.

2.4.3 Rhaid i bob sefydliad fod â gweithdrefnau disgyblu yn eu lle i'w gweithredu os canfyddir bod aelod o'r staff wedi torri cyfrinachedd unigolyn.

2.4.4 Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod gan staff sydd â mynediad i wybodaeth bersonol y lefel angenrheidiol o gliriad diogelwch.

2.4.5 Rhaid i bob sefydliad sicrhau bod staff sydd â mynediad i wybodaeth bersonol yn derbyn lefel briodol o hyfforddiant, cyngor a chymorth. Dylid ystyried categori a natur y wybodaeth y mae gan staff fynediad iddi a ph'un ai yw eu rôl yn cynnwys unrhyw ofynion penodol i gael mynediad i wybodaeth bersonol.

2.4.6 Rhaid i gytundebau contractiol, cytundebau prosesu data a chytundebau cyfrinachedd priodol fod yn eu lle i ategu'r gwaith o brosesu gwybodaeth bersonol gan drydydd parti/prosesydd.

## 2.5 Rheoli Cofnodion

2.5.1 Mae pob sefydliad yn gyfrifol am gyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd y wybodaeth bersonol y mae'n ei phrosesu.

2.5.2 Bydd pob sefydliad yn cymryd camau rhesymol i gynghori unrhyw barti arall y gwyddys ei fod wedi derbyn neu ei fod yn dal gwybodaeth bersonol anghywir.

2.5.3 Bydd gan bob sefydliad sy'n cymryd rhan polisïau a gweithdrefnau yn eu lle i gynnal cyfrinachedd, uniondeb ac argaeledd gwybodaeth bersonol sy'n cyfeirio'n benodol at gadw, storio a gwaredu cofnodion.

## 2.6 Diogelwch Gwybodaeth a Rheoli Risg

2.6.1 Rhaid bod gan bob sefydliad lefel o ddiogelwch sy'n gymesur â sensitifrwydd a dosbarthiad yr wybodaeth y mae'n ei phrosesu. Gallai hyn gynnwys cadw at safonau, cynlluniau ardystio neu brotocolau perthnasol.

2.6.2 Rhaid cymryd gofal, yn achos pob gwybodaeth gyfanredol, gwybodaeth a ddadbersonolwyd a gwybodaeth ddienw, i sicrhau nad oes unrhyw fodd o adnabod unigolion, e.e. mewn ardaloedd â dwysedd poblogaeth isel/nifer isel o achosion, gan y byddai'n parhau i fod yn wybodaeth bersonol.

2.6.3 Er mwyn cynnig lefel briodol o ddiogelwch ar gyfer gwybodaeth bersonol, rhaid i sefydliadau weithredu mesurau diogelwch ffisegol, trefniadol a thechnegol priodol.

2.6.4 Cyn datblygu a gweithredu systemau neu arferion gwaith newydd ar gyfer prosesu gwybodaeth bersonol, rhaid i bob sefydliad ystyried yr effaith ar breifatrwydd unigolion. Dylid cynnal Asesiadau o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIAs) lle bo hynny'n angenrheidiol.

2.6.5 Derbynnir bod sefydliadau'n amrywio o ran eu maint a'u cymhlethdod. Dylid ystyried hyn wrth weithredu unrhyw safonau, prosesau a mesurau diogelwch perthnasol.

## 2.7 Cwynion a Phryderon

2.7.1 Bydd unrhyw bryderon neu gwynion a dderbynnir oddi wrth unigolion ynghylch prosesu eu data personol yn cael eu trin yn brydlon ac yn unol â gweithdrefnau cwynion mewnol y sefydliad partner hwnnw.

2.7.2 Rhaid i bob sefydliad partner osod prosesau yn eu lle sy'n galluogi adrodd i'r Person Dynodedig ar bryderon ynghylch peidio â chydymffurfio â'r fframwaith hwn.

# Atodiad 1 – Rhestr Termau

| Term | Diffiniad |
| --- | --- |
| Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data (DPIA) | Mae asesiadau o'r effaith ar ddiogelu data, a elwir hefyd yn Asesiadau o'r Effaith ar Breifatrwydd (PIAs), yn offeryn sy'n gallu helpu sefydliadau i nodi'r ffordd fwyaf effeithiol o gydymffurfio â'u rhwymedigaethau diogelu data a bodloni disgwyliadau unigolion o ran preifatrwydd. Bydd Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data effeithiol yn galluogi sefydliadau i nodi a datrys problemau'n gynnar, gan leihau'r costau cysylltiedig a'r niwed i enw da, a allai ddigwydd fel arall. |
| Deddfwriaeth Diogelu Data | Mae Deddfwriaeth Diogelu Data yn y DU yn cael ei chymhwyso trwy ddwy brif ddeddfwriaeth, sef Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (GDPR y DU) a Deddf Diogelu Data 2018, y dylid eu darllen ochr yn ochr.<br><br>Mae Deddf Diogelu Data 2018 yn creu darpariaethau penodol, megis eithriadau y mae GDPR y DU eu caniatáu, ac mae'n ymgorffori darpariaethau Cyfarwyddeb Diogelu Data'r UE 2016/680 - y Gyfarwyddeb Gorfodi'r Gyfraith. |
| Gwrthrych data | Mae 'gwrthrych data' yn berson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy. Gallai sefydliadau gyfeirio at wrthrychau data fel defnyddwyr gwasanaeth, cleifion, cleientiaid, dinasyddion, staff, ac ati, ond er cysondeb, mae dogfennaeth fframwaith WASPI yn cyfeirio at wrthrychau data. |
| Gwybodaeth bersonol / data | Golygu unrhyw wybodaeth sy'n ymwneud â pherson naturiol adnabyddedig neu adnabyddadwy ('gwrthrych data'); person naturiol adnabyddadwy yw person y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn arbennig wrth gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu un neu fwy o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, genetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol y person naturiol hwnnw. |
| Prosesyddion | Sefydliad sy'n prosesu data personol o dan Gontract ar gyfer y Rheolydd/Rheolwyr, ac yn ôl eu cyfarwyddiadau. Mae'n ofyniad cyfreithiol i Reolwyr osod allan yn ysgrifenedig y pwrpas ac i ba raddau y gall Prosesyddion brosesu gwybodaeth bersonol a'r mesurau disgwyliedig |

| | |
|---|---|
| | sy’n ofynnol ar gyfer diogelu’r wybodaeth honno. |
| Rheolydd | Sefydliad, fel arfer, ond gall fod yn unigolyn hefyd, sy’n penderfynu at ba ddibenion ac ym mha ffordd y mae, neu y bydd, unrhyw wybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu.<br><br>Rhaid i reolwyr sicrhau bod unrhyw brosesu gwybodaeth bersonol y maent yn gyfrifol amdano yn cydymffurfio â’r ddeddfwriaeth berthnasol gan gynnwys y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU, a Deddf Diogelu Data 2018. |
| Trydydd sector | Term a ddefnyddir i ddisgrifio’r ystod o sefydliadau nad ydynt yn y sector cyhoeddus na’r sector preifat. Mae’n cynnwys sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, elusennau cofrestredig a sefydliadau eraill megis cymdeithasau, grwpiau hunangymorth, grwpiau cymunedol, mentrau cymdeithasol, sefydliadau cydfuddiannol a chwmnïau cydweithredol. |
| Ymarferydd | Term cynhwysol i ddisgrifio gweithiwr cyflogedig, neu berson arall sy’n gweithio i, neu ar ran, sefydliad partner, sy’n ymwneud â gofalu am neu ddarparu gwasanaethau ar gyfer y gwrthrych data. Er enghraifft: swyddog heddlu, gweithiwr proffesiynol iechyd, gweithiwr cymdeithasol, gwirfoddolwr ac ati. |